

Fy Rheolwr Llinell yw...

Fy Nghynrychiolydd Gwasanaeth yw...

Cyngor Sir Dinbych
Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
Caledfryn, Dinbych
01824 71(2502)
healthandsafetyteam@denbighshire.gov.uk



Cyflwyniad i Weithwyr

Iechyd a Diogelwch

Nod y llyfryn hwn yw ateb cwestiynau cyffredin sy'n ymwneud â'ch iechyd a diogelwch, a rhoi syniad i chi o beth a ddisgwylir gan Gyngor Sir Ddinbych, fel eich cyflogwr, a gennych chi.

1. Dim ond gweithiwr ydw i – onid gwaith fy nghyflogwr yw rheoli iechyd a diogelwch?

Fel gweithiwr mae dyletswydd arnoch chi hefyd i edrych ar ôl eich hun, ac eraill o'ch amgylch. Er bod rheoli iechyd a diogelwch yn gyfraith, rydym am i chi fynd adref ar ddiwedd y dydd yn yr un cyflwr ag y daethoch i'r gwaith, felly mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â'ch swydd, a'r risgiau o'r peryglon hynny - a'ch bod yn cydweithio â'ch rheolwr er mwyn eu rheoli.

2. Felly sut mae fy nghyflogwr yn edrych ar fy ôl?

Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych wneud nifer o bethau i sicrhau ei fod yn edrych ar ôl ei weithwyr a chydymffurfio gyda'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant, darparu a chynnal a chadw gweithleoedd, offer a chyfarpar yn ddiogel, ymgynghori gyda gweithwyr ar bethau sy'n eu heffeithio, a chlustnodi, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'n gweithgareddau yn y gwaith. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau yn y gweithle, felly mae'n bwysig i chi ddweud wrth eich Rheolwr Llinell os ydych yn cael damwain neu ddigwyddiad yn eich gwaith.

3. Lle mae dod o hyd i'r polisïau sy'n berthnasol i fy ngwaith?

Yng Nghyngor Sir Ddinbych, yr unig bolisi corfforaethol sydd gennym mewn iechyd a diogelwch yw'r Polisi Iechyd a Diogelwch ei hun, fodd bynnag mae'n bosib bod polisïau a gweithdrefnau sy'n benodol ar gyfer eich gwasanaeth chi. Gwybodaeth a chanllawiau yw gweddill eich dogfennaeth. Gyda chymaint o amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu darparu gan Gyngor Sir Ddinbych - o hamdden a llyfrgelloedd i waith cymdeithasol a gwaith adeiladu - dydyn ni ddim yn credu bod dull 'yr un fath i bawb' yn gweithio, ac felly rydym yn teimlo bod dogfennau a thempledi canllaw yn llawer mwy defnyddiol er mwyn i dimau gyflawni eu hasesiadau iechyd a diogelwch eu hunain. Mae rhai o'r pynciau mae dogfennau ategol yn ymwneud â nhw yn cynnwys: gwybodaeth diogelwch tân, templedi ac enghreifftiau o ddogfennau, canllawiau penodol i ysgolion, canllawiau'n ymwneud â gyrru a'r ffyrdd, adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau ar-lein, a chofrestr diogelu staff.

4. Pam nad oes asesiad risg ar gyfer fy ngweithgarwch yn y gwaith?

Rhaid i'ch Rheolwr Llinell roi gwybod i chi am unrhyw asesiadau risg presennol a systemau diogel o weithio sy'n gysylltiedig â'ch swydd. Er taw cyfrifoldeb eich rheolwr yw sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'ch gweithgarwch yn eich swydd wedi eu hasesu, gellir dirprwyo'r dasg hon, ac yn aml chi yw'r person gorau i wybod pa beryglon sy'n bodoli o fewn eich gweithgareddau dyddiol a sut i reoli'r risgiau sy'n deillio ohonynt. Felly os nad ydych yn credu bod asesiad risg cyfredol yn bodoli ar eich cyfer chi, siaradwch gyda'ch Rheolwr Llinell ynghlŷn â chreu un.

5. Os oes problem gyda iechyd a diogelwch yn fy swydd – gyda phwy ddylwn i siarad?

Os oes gennych unrhyw bryderon am rôl benodol eich swydd, dylech siarad yn gyntaf gyda'ch Rheolwr Llinell, ond os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw - neu os ydych eisoes wedi siarad â nhw ond ddim yn teimlo y bu unrhyw weithredu - mae sawl cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch y gallwch siarad â nhw. Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bob amser ar gael ar 01824 712502, a dylai'ch gwasanaeth fod â chynrychiolydd Undeb a Chyngor Staff a all weithredu ar unrhyw broblemau sydd gennych. Mae gennym dîm Cynghori Iechyd Galwedigaethol hefyd, a all eich cynorthwyo, ar 01824 712522.

Pan fyddwch yn cychwyn yn eich swydd, rhaid i'ch Rheolwr Llinell eich arwain drwy broses ymsefydlu adrannol. Dylai hyn roi i chi'r holl wybodaeth leol y mae angen i chi ei wybod, gan gynnwys pwy yw'ch cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch, gweithdrefnau larwm tân, cyfleusterau lles, polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'ch gweithgarwch yn y gwaith, proses adrodd am ddamweiniau, swyddogion cymorth cyntaf, a hyfforddiant ar unrhyw offer sy'n berthnasol i'ch swydd gan gynnwys gwybodaeth ar unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol angenrheidiol.

Os nad ydych wedi derbyn hwn – gofynnwch amdano!

Gallwch ddod o hyd i'n holl Ganllawiau a thempledi Iechyd a Diogelwch ar y rhyngwyd.